# EVANS, JOHN (1768 - c. 1812), awdur llyfrau ar deithiau yng Nghymru

**Enw:** John Evans
**Dyddiad geni:** 1768
**Dyddiad marw:** c. 1812
**Rhiant:** Benjamin Evans
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** awdur llyfrau ar deithiau yng Nghymru
**Maes gweithgaredd:** Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Teithio
**Awdur:** Frederick John North

Efallai ei fod yn fab Benjamin Evans, offeiriad yn Lydney, swydd Gloster. (Fe'i cymysgir weithiau â John Evans, ysgolfeistr ym Mryste, awdur llyfrau ynglyn a Bryste, a thraethodau athronyddol.) Cafodd ei addysg yng Ngholeg Iesu, Rhydychen (ymaelodi 1789, B.A., 1792).

Ychydig a wyddys am John Evans ar wahân i'w weithiau - pedwar llyfr yn disgrifio Cymru : (*a*) *A Tour through part of North Wales in ... 1798 and at other times: principally undertaken with a view to Botanical researches ...* (London, 1800; arg. eraill yn 1802 a 1804); (*b*) *Letters written during a Tour through South Wales in ... 1803 and at other times, ...* 1804; (*c*) ' Monmouthshire ' yng nghyfrol xi y gwaith a enwir *The Beauties of England and Wales*; a (*ch*) ' North Wales ' yng nghyfrol xvii yr un gwaith, 1812; yr oedd i ysgrifennu ar Dde Cymru i'r cyhoeddiad hwn, eithr bu farw ar ôl ysgrifennu cyfran fechan ohono. Er bod ei lyfrau yn llawn o fanylion diddorol, y mae'n amlwg fod mwy o ôl darllen ynddynt nag o ôl sylwadaeth wrth drafaelio. Er enghraifft y mae'r hyn a ddywed am weithiau glo yn Sir Benfro (yn y *Tour through South Wales ...* 1804) yn aralleiriad o'r hyn a ysgrifenasid gan George Owen, Henllys, ddwy ganrif yn gynt. Bu farw c. 1812, h.y. cyn cyhoeddi cyfrol xvii y *Beauties of England and Wales*.

## Awdur

**Frederick John North**, (1889 - 1968)

## Ffynonellau


*Oxford Dictionary of National Biography*, vi, 932

T. R. Roberts, *Eminent Welshmen: a short biographical dictionary of Welshmen... from the earliest times to the present* (1908)

T. Rees, *The beauties of England and Wales* (1815), xvii

T. Rees, *A topographical and historical description of South Wales* (1815), v-vi


## Dolenni Ychwanegol

VIAF: 67956405

Wikidata: Q6232019


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu